WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyflwyno: 13 Hydref 2017

Teithio ar Fusnes

Ysgrifennaf i ymateb i'ch cais am wybodaeth isod dyddiedig 20 Medi 2017 i ofyn am wybodaeth am Deithio ar Fusnes.

Er mwyn hwylustod rwyf wedi copïo eich cwestiynau isod a nodi ein hatebion cyfatebol.

Rydym ni'n cadw gwybodaeth ar gyfer y cyfnod o 12 mis rhwng 01 Gorffennaf 2016 a 30 Mehefin 2017, sef y data blwyddyn lawn diweddaraf sydd ar gael, gan fod ein Polisi Teithio a Chynhaliaeth yn caniatáu i hawliadau am filltiroedd a deithiwyd gael eu cyflwyno hyd at dri mis ar ôl dyddiad y draul.

1. Sawl milltir a deithiwyd ar fusnes gan gyflogeion yn defnyddio eu ceir eu hunain (fflyd lwyd) yn y deuddeng mis diwethaf
Teithiwyd 772.704 o filltiroedd ar fusnes rhwng 01 Gorffennaf 2016 a 30 Mehefin 2017 gan gyflogeion yn defnyddio eu ceir eu hunain.

2. Faint o arian a ad-dalwyd i gyflogeion am y milltiroedd busnes hynny ar gyfer y fflyd lwyd yn y deuddeng mis diwethaf
Gwerth yr ad-daliad am y milltiroedd busnes y cyfeirir atynt uchod oedd £181,080.

3. Pwy sy'n gyfrifol am reoli'r polisi teithio ac amcanion cynaliadwyedd ar gyfer eich sefydliad
Pennir polisïau sy'n ymwneud â Rheolaeth Ariannol a Stiwardiaeth Amgylcheddol (Cynaliadwyedd) gan y Bwrdd a rheolir hwy gan y Cyfarwyddwr Cyllid/Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn ôl eu trefn

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y ffordd yr ymdriniais â'ch cais, cysylltwch â mi yn ddi-oed.

Yn gywir